

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**  
**9 MEHEFIN 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell ddydd Iau, 9 Mehefin 2022.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)  
Cynghorwyr: Ronald Davies, Chris Dolphin, Alasdair Ibbotson, Allan Marshall, Vicky Perfect, Kevin Rush, Jason Shallcross a Linda Thomas,

**DIRPRWYON:**  
Y Cynghorydd Gina Maddison (dirprwyo dros y Cynghorydd Sam Swash)

**CYFRANWYR:**  
Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden); Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol); y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Gwydn yn cynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Corfforaethol - Datblygiad Sefydliadol a Phobl, Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, Rheolwr Cyllid Strategol - Strategaeth Ariannol ac Yswiriant, Rheolwr Cyllid Strategol - Cyfrifyddu Rheoli

**HEFYD YN BRESENNOL:**  
Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Tai ac Asedau a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**1. PENODI CADEIRYDD**

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyngor, yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, wedi penderfynu y dylai'r Grŵp Annibynnol, enwebu Cadeirydd y Pwyllgor.

Cynigiodd y Cynghorydd Chris Dolphin fod y Pwyllgor yn cadarnhau penodi'r Cynghorydd Richard Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jason Shallcross ac fe'i cymeradwywyd wedi cynnal pleidlais ar y mater.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau penodiad y Cynghorydd Richard Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor.

(Cadeiriodd y Cynghorydd Jones y cyfarfod wedi hyn.)

**2. PENODI IS-GADEIRYDD**

Enwebodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Dolphin fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ron Davies.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Chris Dolphin yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

**3. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**4. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Vicky Perfect a Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**5. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 10.15am)

.....  
**Y Cadeirydd**